**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**15.01.2026 @ 7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**

**1. CROESO Y CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elgan Williams, bawb i'r cyfarfod. Estynnwyd cydymdeimlad â'r gyn-Gynghorydd, Clare Hughes ar golli ei mam yn ddiweddar.

**2. PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ieuan Davies;
Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
Y Cynghorydd Gareth Edwards;
Y Cynghorydd Alun Price Jones;
Y Cynghorydd Richard Jones;
Y Cynghorydd Gareth Owen;
Y Cynghorydd Elgan Williams
Eleri Thomas (Clerc) &
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr H) John Evans

**3. YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Mel Briant, Angharad Jones a Non Jones am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**4. MATERION YR HEDDLU**

**Darparodd SCC yr H John Evans yr wybodaeth ganlynol am faterion yn ymwneud â'r heddlu, dros y misoedd diwethaf.**

**4.1** **Troseddau Cefn Gwlad:** Lamping – hela ysgyfarnogod wedi bod yn amlwg yn Ardaloedd Swyddffynnon ac Ysbyty Ystwyth
yn ystod mis Rhagfyr 2025. Daeth yr heddlu ar draws car yn cynnwys pum unigolyn, ci a llusernau; roedd yr heddlu'n ymchwilio i'r mater.

**4.2** **Gyrrodd feic** mewn i giât a'i difrodi.

**4.3** **Ffair Rhos: Tachwedd 2025:** Gadawyd 2 gi allan i grwydro gan dorri amodau mechnïaeth.

**4.4** **Teifi Pools:** materion yn ymwneud â cherbyd 4 x4.

**5. DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD:** Dim wedi'i ddatgan.

**6. CADARNHAU COFNODION 27 Tachwedd 2025**

**CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Gareth Edwards**); **EILIWYD (Y Cynghorydd Richard Jones)** a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion 27 Tachwedd 2025 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION SY'N CODI**

7.1 **Pennu'r Praesept 2026-27:** Ystyriwyd Adroddiad y Gyllideb (ynghlwm). Roedd Praesept 2025-26 sef £8,710 ar gyfer Treth y Cyngor eiddo Band D ym Mhontrhydfendigiad/ Ffair Rhos wedi golygu taliad wythnosol o £0.49 . Ar ôl grym drafodaeth, cytunwyd cynyddu'r Praesept, megis taliad wythnosol o £0.75 i Dalwyr Treth y Cyngor Band D. Byddai'r Praesept 2026-27 yn cael ei osod fel £13,332. Cytunodd oll yn bresennol â'r cynnig hwn ar wahân i'r Cynghorydd Alun Price Jones, a bleidleisiodd yn ERBYN.
**Hysbysir Cyngor Sir Ceredigion o'r hyn a hawliwyd gan Gyngor Cymuned Ystrad Fflur ar gyfer y Praesept 2026-27.**

7.2 **Pafiliwn Y Bont:** Cynrychiolodd y Cynghorydd Ieuan Davies, y Cynghorydd Gareth Edwards a'r Cynghorydd Sir a Chymuned, Ifan Davies, y Cyngor Cymuned ar y pwyllgor newydd sefydlu ar gyfer y Pafiliwn, a oedd yn cynnwys aelodau pwyllgorau lleol. Ymdrechir sefydlu'r ffordd ymlaen ar gyfer dyfodol y Pafiliwn.

7.3 **Cynhaliwyd Sesiwn Galw Heibio i'r Cyhoedd ar ddydd Iau 4 Rhagfyr 2025 (12 hanner dydd – 7pm) yn Neuadd Pantyfedwen:** https://placemaking-ceredigion.wales/ ac yn ddigwyddiad llwyddiannus. Cynhelir sesiwn ar-lein cyn bo hir a disgwylir presenoldeb dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned.

7.4 **Ardal Chwarae Pantyfedwen**
Cytunwyd clustnodi sylw i Grant y Loteri Genedlaethol.
Gallai Hazel Thomas, Prif Weithredwr CAVO, gynnig cymorth mewn perthynas â chyllid grant ac argymhellir Cyllid y Loteri Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – roedd llawer o leoedd yng Ngheredigion wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ac yn werth rhoi sylw i'r grant yn ei barn hi.

7.5 **Bin Graean: yng nghyffiniau Heol y Bannau**: yn awr yn ei le. Gofynnodd y Cynghorydd Alun Price Jones paham nad oedd Ystâd Maesydderwen wedi bod yn gymwys ar gyfer Bin Graean o ystyried y galw yn ystod tywydd garw. Esboniwyd nad oedd y graddiant yn ddigonol i warantu bin. Ystyriodd y Cyngor Cymuned brynu bin graean/halen ar gyfer Ystâd Maesydderwen. Cytunwyd darganfod y gost.

7.6 **Bioamrywiaeth Adran 6**: Gwaith ar y gweill. (y Cynghorydd Mel Briant).

7.7 **Cerbyd wedi'i barcio ar y Glas**: Roedd y lifft yn dal i fod ar y Glas er bod y cerbyd wedi'i symud oddi yno.

7.8 **Parcio o flaen y Garej: llinellau melyn dwbl angen eu hamlygu i atal parcio yn yr ardal .** Hysbysir Cyngor Sir Ceredigion unwaith yn rhagor.

7.9 **Meddygfa Llanilar** yn rhoi'r gorau i ddosbarthu presgripsiynau i Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigiad a phentrefi'r ardal. Gallai olygu dwy daith i'r claf. Anfonwyd llythyr o wrthwynebiad i'r mesur hwn i'r Feddygfa, a fyddai'n cael effaith anffafriol ar yr henoed, anabl a'r rhai heb rwydwaith o gymorth.
Derbyniwyd ymateb gan Mike Coleman, Partner Rheoli, Canolfan Iechyd Llanilar. Daeth y gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau i ben ar yr 17 Rhagfyr 2025.

Gyda aflonyddwch y bu'n rhaid i'r Practis wneud y penderfyniad i roi'r gorau i'r gwasanaeth cyflenwi; fodd bynnag, nid oedd yn bosibl parhau, gan nad oedd y gost yn gynaliadwy bellach.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod practis cyffredinol yn wynebu pwysau cynyddol ar adnoddau, a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod y 3,300 o gleifion cofrestredig yn derbyn gofal diogel ac effeithiol, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
Gwerthfawrogwyd y gallai'r newid fod yn anghyfleus i rai cleifion, ac ni danamcangyfrifiwyd y pryderon. Serch hynny, roedd unrhyw wasanaeth a ddarparwyd yn gyson â'r rhwymedigaeth ehangach i gynnal gwasanaethau clinigol hanfodol ar gyfer y boblogaeth gyfan o gleifion.

**7.10 Lôn Fach: Bont Werdd: llifogydd:** Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion yn sôn eu bod yn neilltuo sylw i'r mater. Cytunwyd trafod y mater ymhellach â'r Cynghorydd Non Jones.

**7.11 Clymog Japan ar brif bont y Pentref:** Ymateb gan Mr Brian Thomas, Cyngor Sir Ceredigion yn sôn mai cyfrifoldeb perchennog y tir oedd dileu'r clymog. Awgrymwyd mai perchnogion y Llew Coch oedd yn gyfrifol am y tir dan sylw.

**7.12 Meinciau cyhoeddus** yn y cyffiniau: i osod un mainc ger y Gofgolofn.

**7.13 Pwyllgorau:** Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiad.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Nodiadau ynglŷn â'r cyfarfodydd rhwng Cyngor Sir Cerediigon** a'r Cynghorau Thref a Chymuned Cerediigon ar ddiwedd Tachwedd 2025. Ni gynrychiolwyd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn ystod y cyfarfodydd. Cylchredwyd y nodiadau at sylw aelodau – er gwybodaeth.

**8.2 Y Pwyllgor Moeseg a Safonau - Cyngor Sir Ceredigion.** Hysbyseb ar gyfer dau aelod annibynnol ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion. Dim mynegiant o ddiddordeb gan y Cyngor Cymuned.

**8.3 Cyngor Sir Ceredigion:** Lansio Ymgysylltu â Strategaeth Ieuenctid Ceredigion – Galwad am Weithredu. Gwybodaeth ar sut i gwblhau'r ymgynghoriad ymgysylltu – er gwybodaeth.

**8.4 Adolygiadau Ffiniau Cymunedol**

Estynnodd Un Llais Cymru (ULIC) a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wahoddiad i Gadeirydd a Chlerc yr aelod-gynghorau a fydd neu a allai gael eu heffeithio gan ganlyniad adolygiadau ffiniau cymunedol i fynychu gweminarau i ddarparu gwybodaeth bwysig am y broses weithredu a fydd yn digwydd dros y cyfnod hyd at etholiadau Mai 2027.

**8.5 Un Llais Cymru** – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion, Dydd Mercher 14 Ionawr 2026 am 7pm drwy Zoom: er gwybodaeth.

**8.6 Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ymlaen at Gynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

9. **CYNLLUNIO**

**9.1** **Cais Cynllunio:** A260001
**Ymgeisydd:** Huws a Jones
**Lleoliad:** Cefngaer, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6EJ.
**Cynnig:** Gwaith sy'n ymwneud â gosod berwedydd biomas i wresogi eiddo ar y safle, gan gynnwys codi adeilad storio naddion pren, estyniad i'r adeilad presennol a gwaith cysylltiedig (ôl-weithredol)

**Sylwadau'r Cyngor Cymuned**: Dim gwrthwynebiad.

**9.2** **Cais Cynllunio:** A250952
**Ymgeisydd:** ED Jones
**Lleoliad:** Tir Dolbeudiau, Pontrhydfendigaid, Tregaron, Ceredigion, SY25 6EJ.
**Cynnig:** Adeilad siop fwd sych arfaethedig.

**Sylwadau'r Cyngor Cymuned**: Dim gwrthwynebiad.

10. **CYLLID**

**TALIADAU**

**10.1** **Torch Pabi** d/l Y Cynghorydd Gareth Owen £25

**10.2** **Cyflog y Clerc: Rhagfyr 2025** £238.33; Treuliau: £68.70

**10.3** **Swm Priodol o dan Adran 137 (4) (a)** o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Terfyn Gwariant Adran 137 ar gyfer 2026-27 ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 oedd £11.60/ etholwr.

**10.4** **Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned:** i glustnodi sylw i'r Polisi yn ystod cyfarfod y dyfodol.

11. **Eitemau ar gyfer Facebook: Dim**

12. **UNRHYW FUSNES ARALL**

**12.1** **Cinio Blynyddol:** Dydd Gwener 20fed Chwefror yn y Llew Coch, Bont. Richard i gylchredeg y fwydlen ymlaen llaw.

**12.2** **Roedd tyllau ar y ffyrdd yn amlwg** ger Maesllyn, Dolau Meurig a Heol y Bannau: I adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**12.3** **Goleuadau Nadolig:** Roedd matiau storm wedi'chwythu o'u safleoedd a gallent fod yn berygl. Ystyrir y mater yn ystod trefniadau'r dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm.**
**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 19 Chwefror 2026 @7pm.**

**Llofnod/ Dyddiad -----------------------------------------------------------------------------------------**